



Gyrfa Cymru
Careers Wales

Erthygl Bwletin GML Gyrfa Cymru: Yr Economi Deallusrwydd Artiffisial yng Nghymru Chwefror 2025

Rhifyn 17: Cyhoeddwyd Chwefror 2025
Dyddiad y rhifyn nesaf: Mehefin 2025





Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Beth yw'r economi Deallusrwydd Artiffisial?	4
3. Beth yw'r technolegau sy'n gyrru'r economi Deallusrwydd Artiffisial?.....	5
4. Sgiliau Deallusrwydd Artiffisial.....	7
5. Rolau swyddi mewn Deallusrwydd Artiffisial.....	10
6. Cyfleoedd a Bygythiadau Deallusrwydd Artiffisial	12
7. Sut mae Deallusrwydd Artiffisial yn trawsnewid diwydiannau ledled Cymru..	13
8. Casgliad	15
9. Darllen Pellach:	15
10. Gwybodaeth Gyrfa Cymru:	15



Data Allweddol ar gyfer Cymru

Crybwyllir
250 o sgiliau sy'n ymwneud ag AI a mewn swyddi gwag



17,000 o swyddi gwag ar-lein yn sôn am wahanol sgiliau AI dros 2 flynedd

Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cychwyn yn
1956



14 maes arbenigol technolegau AI

Sgiliau meddal yn parhau i fod yn flaenoriaeth i gyflogwyr



Mae **47%** o gyflogwyr yn nodi prinder sgiliau

56% gyflogwyr ddim yn hyderus am AI



4,388 sôn am sgiliau AI mewn swyddi gwag yn y Sector Cyhoeddus



Premiwm o **14%** ar gyflogau gyda sgiliau AI



1. Cyflwyniad

Dechreuodd Deallusrwydd Artiffisial (AI) fel maes astudio yn swyddogol ym 1956 pan daeth criw o ymchwilwyr at ei gilydd i archwilio'r syniad o greu peiriannau a allai efelychu deallusrwydd dynol. Gwelwyd yr enghraifft gyntaf o Ddeallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy ymarferol yn 1997, gan ennill ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r dechnoleg, pan gurodd rhaglen [Deep Blue yr IBM](#) bencampwr gwyddbwyll y byd, Garry Kasparov.

Mae [Deallusrwydd Artiffisial](#) yn cyfeirio at y wyddoniaeth o wneud i systemau cyfrifiadurol gyflawni tasgau sydd fel arfer, neu'n draddodiadol, yn gofyn am ddeallusrwydd dynol. Mae'r tasgau hyn yn cynnwys dysgu, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, ac adnabod lleferydd neu ddelweddau. Mae technolegau Deallusrwydd Artiffisial yn dod yn rhan annatod o'n bywyd bob dydd, gan drawsnewid swyddi a diwydiannau, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd mewn gwahanol sectorau. Nid un dechnoleg yn unig yw Deallusrwydd Artiffisial ac mae'n effeithio ar swyddi a diwydiannau mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r Erthygl hon yn rhoi trosolwg o sut mae Deallusrwydd Artiffisial yn llywio economi Cymru drwy roi crynodeb o ddetholiad o ffynonellau am y gwahanol dechnolegau Deallusrwydd Artiffisial a sut mae sgiliau, swyddi a diwydiannau yn addasu.

2. Beth yw'r economi Deallusrwydd Artiffisial?

Mae'r system economaidd y mae deallusrwydd artiffisial yn dylanwadu arni yn cynnwys:

- Diwydiannau sy'n cael eu gyrru gan Ddeallusrwydd Artiffisial
- Marchnadoedd swyddi
- Awtomatiaeth
- Effaith ariannol
- Marchnadoedd byd-eang

Yng Nghymru, mae Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei fabwysiadu i gefnogi arloesedd, gwella gwasanaethau cyhoeddus, a sbarduno twf economaidd. Mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau ledled y wlad yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn meysydd fel gofal iechyd, addysg, ynni adnewyddadwy, ac amaethyddiaeth. Er enghraifft, mae Deallusrwydd Artiffisial yn helpu i symleiddio diagnosis mewn gofal iechyd, optimeiddio dulliau addysgu mewn ysgolion, a gwella rheolaeth cynydau ar ffermydd. [Cymru'n ganolog i ymdrech y DU i roi hwb i AI](#)

Yn ogystal, mae Deallusrwydd Artiffisial yn cefnogi busnesau lleol i fabwysiadu technolegau clyfar, gan eu gwneud nhw'n fwy cystadleuol yn fyd-eang. Trwy fuddsoddi mewn ymchwil Deallusrwydd Artiffisial ac annog partneriaethau rhwng prifysgolion a diwydiannau, mae Cymru'n gosod ei hun fel arweinydd ym maes datblygu Deallusrwydd Artiffisial moesegol ac arloesol.

Mae gweithio mewn swydd ddigidol yn golygu bod yn rhan o ddiwydiant cyffrous sy'n newid ac yn llywio ein dyfodol. Mae pob diwydiant yn dibynnu ar dechnoleg mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'r rhan fwyaf o swyddi'n defnyddio rhai offer a sgiliau digidol. Rydym yn dibynnu ar y technolegau hyn yn ein bywydau bob dydd!

Nid offeryn yn unig yw Deallusrwydd Artiffisial ond grym economaidd mawr sy'n dylanwadu ar gynhyrchiant, modelau busnes, a dynameg y farchnad lafur. Mae'r maes hwn sy'n tyfu yn cynnig cyfleoedd cyffrous i Gymru fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, creu swyddi, a sicrhau datblygu cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Digidol](#) ar dudalennau Swyddi Dyfodol Cymru Gyrfa Cymru.



3. Beth yw'r technolegau sy'n gyrru'r economi Deallusrwydd Artiffisial?

Mae twf yr economi Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei bweru gan nifer o dechnolegau allweddol. Mae'r datblygiadau arloesol hyn yn galluogi datblygu a chymhwyso systemau Deallusrwydd Artiffisial ar draws amrywiol ddiwydiannau. Gyda'i gilydd, mae'r technolegau hyn yn gyrru'r economi Deallusrwydd Artiffisial trwy alluogi arloesedd, gwella effeithlonrwydd, a chreu cyfleoedd newydd ar draws diwydiannau. Bydd eu datblygiad parhaus yn llywio dyfodol Deallusrwydd Artiffisial a'i effaith ar gymdeithas.

Dyma'r technolegau mwyaf arwyddocaol sy'n gyrru'r economi Deallusrwydd Artiffisial ar hyn o bryd:



1. Dysgu Peirianyddol (ML)

Mae Dysgu Peirianyddol yn elfen graidd o Ddeallusrwydd Artiffisial, sy'n caniatáu i systemau ddysgu o ddata a gwella dros amser. Technolegau fel cymwysiadau pŵer dysgu dan oruchwyliaeth, heb oruchwyliaeth, ac atgyfnerthu fel dadansoddeg ragfynegol, systemau argymell, a cherbydau awtonomaidd.



2. Prosesu Iaith Naturiol (NLP)

Mae Prosesu Iaith Naturiol yn galluogi peiriannau i ddeall, dehongli a chynhyrchu iaith ddynol. Dyma yw sylfaen sgwrsfotiaid, cymorthyddion rhithwir (e.e. Siri ac Alexa), ac offer cyfieithu (e.e. Google neu MS Translation) a dadansoddi sentiment.



3. Gwelediad Cyfrifiadurol

Mae gwelediad cyfrifiadurol yn caniatáu i systemau Deallusrwydd Artiffisial brosesu a dadansoddi gwybodaeth weledol. Mae'r dechnoleg hon yn gyrru arloesedd mewn adnabod wynebau, delweddu meddygol, cerbydau awtonomaidd, a systemau gwyliadwriaeth.



4. Dysgu Dwfn

Mae dysgu dwfn yn defnyddio rhwydweithiau niwral i fodelu patrymau cymhleth mewn data. Mae'n sail i ddatblygiadau arloesol mewn adnabod delweddu, prosesu lleferydd, a modelau Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol fel ChatGPT a DALL-E.



5. Roboteg

Mae roboteg wedi'i bweru gan Ddeallusrwydd Artiffisial yn cyfuno awtomeiddio corfforol â gwneud penderfyniadau deallus. Caiff robotiaid â Deallusrwydd Artiffisial eu defnyddio mewn gweithgynhyrchu, gofal iechyd, amaethyddiaeth a logisteg i wella effeithlonrwydd ac addasrwydd.



6. Rhyngwrwd Pethau (IoT)

Mae dyfeisiau Rhyngwrwd Pethau yn casglu ac yn trosglwyddo data o'r byd ffisegol. Mae Deallusrwydd Artiffisial yn prosesu'r data hwn i wneud y gorau o weithrediadau, gwella prosesau gwneud penderfyniadau, a galluogi systemau clyfar, megis cartrefi, dinasoedd a diwydiannau cysylltiedig.



7. Cyfrifiadura Ymyl (Edge Computing)

Mae cyfrifiadura ymyl yn dod â phrosesu Deallusrwydd Artiffisial yn agosach at ffynhonnell casglu data. Mae hyn yn lleihau cuddni ac yn gwella effeithlonrwydd ar gyfer cymwysiadau fel cerbydau awtonomaidd, awtomeiddio diwydiannol, a dyfeisiau clyfar.



8. Cyfrifiadura Cwmwl

Mae plattfformau cwmwl fel AWS, Google Cloud, a Microsoft Azure yn darparu seilwaith allai ehangu ar gyfer datblygu a defnyddio Deallusrwydd Artiffisial. Mae nhw'n cynnig offer a fframweithiau ar gyfer dysgu peirianyddol, storio data, a hyfforddiant modelau Deallusrwydd Artiffisial.



9. Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Mae technolegau Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol, a elwir weithiau yn Rhwydweithiau Gwrthwynebol Cynhyrchiol (GANs), wedi'u poblogeiddio gan ChatGPT, a modelau trawsnewid, yn creu cynnwys newydd, fel testun, delweddau, cerddoriaeth a fideos. Mae'r offer hyn yn chwyldroi diwydiannau creadigol, marchnata a dylunio.



10. Cadwyni bloc (*Blockchain*)

Mae cadwyni bloc yn sicrhau tryloywder a diogelwch mewn systemau AI trwy ddarparu rheolaeth data datganoledig. Mae'n arbennig o ddefnyddiol mewn diwydiannau sy'n gofyn am lefel uchel o ymddiriedaeth a diogelwch, megis cyllid, gofal iechyd, a rheoli'r gadwyn gyflenwi.



11. Cyfrifiadura Cwantwm

Mae gan gyfrifiadura cwantwm y potensial i gyflymu Deallusrwydd Artiffisial trwy ddatrys problemau cymhleth yn gyflymach na chyfrifiaduron traddodiadol. Fe allai hyn chwyldroi meysydd fel darganfod cyffuriau, cryptograffeg, ac optimeiddio.



12. Systemau Awtonomaidd

Mae systemau awtonomaidd, fel ceir hunan-yrru a dronau, yn cyfuno technolegau Deallusrwydd Artiffisial lluosog i weithredu'n annibynnol. Mae'r systemau hyn yn ail-lunio cludiant, gwasanaethau dosbarthu, a monitro amgylcheddol mewn meysydd fel ailgylchu a chasglu gwastraff.




13. Dadansoddi Data Mawr

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn ffynnu ar ddata, ac mae technolegau data mawr yn galluogi casglu, storio a dadansoddi setiau data helaeth. Mae offer fel Hadoop a Spark yn ei gwneud hi'n bosibl tynnu dealltwriaethau gwerthfawr o ffynonellau data cymhleth.



14. Dealltwriaeth Artiffisial Egluradwy (XAI)

Mae technolegau Dealltwriaeth Artiffisial Egluradwy yn sicrhau bod penderfyniadau Deallusrwydd Artiffisial yn dryloyw ac yn ddealladwy. Mae hyn yn helpu i adeiladu ymddiriedaeth mewn systemau Deallusrwydd Artiffisial, yn enwedig mewn meysydd sensitif fel gofal iechyd, cyllid a'r gyfraith.



4. Sgiliau Deallusrwydd Artiffisial


I weithio ym maes Deallusrwydd Artiffisial, bydd angen cyfuniad o sgiliau technegol, dadansoddol a datrys problemau arnoch chi. Yn dibynnu ar y rôl benodol (e.e., ymchwilydd Deallusrwydd Artiffisial, peiriannydd, gwyddonydd data, neu reolwr cynnyrch), gall y sgiliau gofynnol amrywio.

Mae Deallusrwydd Artiffisial ar frig y rhestr o sgiliau sy'n tyfu gyflymaf mewn swyddi gwag ar-lein a disgwylir iddo barhau i gynyddu mewn pwysigrwydd dros y 5 mlynedd nesaf. Yn ôl [Future of Jobs Report 2025](#), Fforwm Economaidd y Byd, mae dwy ran o dair o gyflogwyr yn bwriadu cyflogi talent â sgiliau Deallusrwydd Artiffisial penodol erbyn 2030.

Mae'r ystod o sgiliau, a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig yn wyneb technoleg Deallusrwydd Artiffisial, yn cael eu categorio fel a ganlyn:




Mae dadansoddiadau o bostiadau swyddi gan Lightcast™ yn y tabl isod, wedi nodi dros 250 o sgiliau a chymwysterau sy'n ymwneud â sut mae sgiliau Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu crybwyll mewn swyddi gwag ar-lein yng Nghymru, rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Rhagfyr 2024.



Ffynhonnell: Lightcast™ Chwefror 2025

Mae'r tabl uchod yn dangos mai Rhwydweithiau, Systemau Gweithredu a Dyfais Rhyngwyneb yw'r 3 sgil Deallusrwydd Artiffisial uchaf a gafodd eu crybwyll mewn dros 17,000 o swyddi ar-lein rhwng Rhagfyr 2022 a Rhagfyr 2024 yng Nghymru.



Ffynhonnell: Lightcast™ Chwefror 2025




Mae'r siart cylch uchod yn dangos mai Systemau Gweithredu, Python a SQL oedd y sgiliau meddalwedd, neu TGCh mwyaf poblogaidd a gafodd eu crybwyll mewn postiadau swyddi rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Rhagfyr 2024 yng Nghymru.

Er bod cynnydd mewn swyddi gwag yn newyddion cadarnhaol ar gyfer twf swyddi, fe wnaeth adroddiad [Business Barometer 2024](#) y Brifysgol Agored ar gyfer Cymru ganfod y canlynol:

- Bod 47% o gyflogwyr Cymru yn dal i adrodd am brinder sgiliau pryderus a diffyg hyder mewn sgiliau Deallusrwydd Artiffisial a thechnoleg werdd
- Bod 56% o gyflogwyr yng Nghymru yn dweud nad ydynt yn hyderus ynghylch defnyddio technolegau Deallusrwydd Artiffisial newydd yn eu busnes

Yn ogystal, mewn perthynas â sgiliau cryf ar y gweill ar gyfer y dyfodol, fe wnaeth adroddiad Ymddiriedolaeth y Brenin ar y [Bylchau Sgiliau Digidol](#) ganfod nad yw 37% o bobl ifanc yn y DU yn astudio 'pwnc digidol neu dechnoleg' y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3, ac nid yw 42% yn meddwl by bydd sgiliau digidol yn hanfodol i'w gyrfu. Mae'r adroddiad yn rhybuddio bod pobl ifanc sydd eisoes yn wynebu anfantais, fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET), yn dangos yr hyder a'r diddordeb isaf o ran dilyn sgiliau a swyddi digidol.



Ffynhonnell: Lightcast™ Chwefror 2025

Mae'r graff uchod yn dangos bod sgiliau 'meddal', neu sgiliau trosglwyddadwy, yr un mor bwysig yn natblygiad technoleg Deallusrwydd Artiffisial, gan eu bod yn ategu'r arbenigedd technegol sydd ei angen i adeiladu a rheoli systemau Deallusrwydd Artiffisial.

Mewn swyddi uwch-dechnoleg, yn ogystal â rolau eraill, mae galw am resymu creadigol a'r gallu i gyrraedd cyd-ddealltwriaeth trwy gydweithio a thrafodaethau dynol. Mae cymhwyso ac integreiddio sgiliau meddal yn sicrhau bod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu gydag:

- Ystyriaethau a chyfrifoldeb moesegol
- Cydweithio a gwaith tîm
- Datrys problemau a chreadigrwydd
- Dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- Ymddiriedaeth a thryloywder
- Arwain a rheoli
- Hyblygrwydd mewn maes sy'n newid yn gyflym



5. Rolau swyddi mewn Deallusrwydd Artiffisial

Mae twf cyflym Deallusrwydd Artiffisial wedi creu galw mawr am weithwyr proffesiynol medrus ar draws gwahanol rolau. Mae amrywiaeth o swyddi yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, o swyddi TGCh uwch-dechnoleg i ddylunwyr yn ogystal â rolau gweinyddol. Fodd bynnag, mae prinder gweithwyr proffesiynol Deallusrwydd Artiffisial, sy'n ei gwneud hi'n anodd i gwmnïau ddod o hyd i weithwyr medrus er gwaethaf galw cynyddol a phremiymau cyflog uwch. Mae [Pricewaterhouse Coopers](#) (PwC) yn adrodd bod cyflogwyr y DU yn fodlon talu premiwm cyflog o 14% am swyddi sy'n gofyn am sgiliau Deallusrwydd Artiffisial.

Dyma rai o'r rolau mwyaf poblogaidd sy'n gofyn am wybodaeth lefel uchel o Ddeallusrwydd Artiffisial:

1. Peiriannydd Dysgu Peirianyddol - [Datblygydd Meddalwedd | Gwybodaeth am Swyddi](#)

Mae peiriannyddion dysgu peirianyddol yn dylunio, adeiladu ac optimeiddio algorithmau sy'n caniatáu i gyfrifiaduron ddysgu o ddata. Maen nhw'n aml yn gweithio gyda setiau data mawr ac offer uwch i ddatblygu systemau Deallusrwydd Artiffisial.

2. Gwyddonydd Data - [Gwyddonydd Data | Gwybodaeth am Swyddi](#)

Mae gwyddonwyr data yn dadansoddi ac yn dehongli data cymhleth i ddarparu dealltwriaeth a llywio penderfyniadau. Maen nhw'n defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial i brosesu data, creu modelau rhagfynegol, a chefnogi strategaethau busnes.

3. Gwyddonydd Ymchwil Deallusrwydd Artiffisial

Mae gwyddonwyr ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu damcaniaethau, technegau a chymwysiaid Deallusrwydd Artiffisial newydd. Mae'r rôl hon yn ddelfrydol ar gyfer y rhai sydd ag arbenigedd mewn mathemateg, cyfrifiadureg, a dysgu dwfn.

4. Datblygydd Meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial - [Peiriannydd Deallusrwydd Artiffisial | Gwybodaeth am Swyddi](#)

Mae datblygyddion meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial yn creu cymwysiaid a systemau sy'n defnyddio technolegau Deallusrwydd Artiffisial, fel sgwrsfotiaid, systemau argymell, ac offer adnabod delweddau.

5. Peiriannydd Roboteg

Mae peiriannyddion roboteg yn dylunio robotiaid sy'n cael eu gyrru gan Ddealltwriaeth Artiffisial ar gyfer diwydiannau fel gweithgynhyrchu, gofal iechyd a logisteg. Mae'r robotiaid hyn yn aml yn cyflawni tasgau sy'n gofyn am fanylder a'r gallu i addasu.

6. Arbenigwr Prosesu Iaith Naturiol (NLP)

Mae arbenigwyr Prosesu Iaith Naturiol yn gweithio ar systemau Deallusrwydd Artiffisial sy'n deall ac yn prosesu iaith ddynol, fel cymorthyddion rhithwir, offer cyfieithu, a chymwysiaid dadansoddi testunau.

7. Peiriannydd Gwelediad Cyfrifiadurol

Mae peiriannyddion gwelediad cyfrifiadurol yn datblygu systemau Deallusrwydd Artiffisial sy'n prosesu ac yn dadansoddi data gweledol. Mae'r rôl hon yn allweddol mewn meysydd fel cerbydau awtonomaidd, adnabod wyneb, a delweddu meddygol.

8. Moesegydd Deallusrwydd Artiffisial neu Ymgynghorydd Polisi

Wrth i dechnolegau Deallusrwydd Artiffisial ddatblygu, mae moesegyddion a chynghoryddion polisi yn sicrhau bod eu datblygiad a'u defnydd yn cyd-fynd â safonau moesegol ac anghenion cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion fel rhagfarn, tegwch, a thryloywder.


9. Dadansoddydd Deallusrwydd Busnes - [Dadansoddydd Busnes - Swydd | Gwybodaeth am Swyddi](#)

Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial i ddadansoddi data a darparu dealltwriaethau gweithredadwy sy'n cefnogi twf busnes, gwella effeithlonrwydd, a gwella'r broses o wneud penderfyniadau.



10. Arbenigydd Cwmwl Deallusrwydd Artiffisial

Mae arbenigyddion cwmwl Deallusrwydd Artiffisial yn dylunio ac yn rheoli atebion Deallusrwydd Artiffisial sy'n cael eu cynnal ar blatfformau cwmwl fel AWS, Azure, neu Google Cloud. Maen nhw'n sicrhau'r gallu i dyfu, diogelwch ac effeithlonrwydd.



Ffynhonnell: Lightcast™ Chwefror 2025

Mae'r siart cylch uchod yn dangos, o fis Rhagfyr 2022 i fis Rhagfyr 2024 yng Nghymru, mai postiadau am Raglennyddion, Datblygyddion Meddalwedd a Dadansoddyddion Data oedd y galwedigaethau mwyaf cyffredin sy'n gofyn am sgiliau digidol TGCh arbenigol.

Dysgwch fwy am wahanol swyddi yn y diwydiant [Digidol](#) ar dudalen Gwybodaeth am Swyddi Gyrfa Cymru.



6. Cyfleoedd a Bygythiadau Deallusrwydd Artiffisial

Wrth i dechnegau Deallusrwydd Artiffisial gael eu hymgorffori mewn mwy o gynhyrchion a gwasanaethau, rhaid i sefydliadau hefyd fod yn ymwybodol o botensial Deallusrwydd Artiffisial i greu systemau rhagfarnllyd a gwahaniaethol, yn fwriadol neu'n anfwriadol.

Mae datblygu Deallusrwydd Artiffisial yn creu rolau newydd, megis hyfforddyddion Deallusrwydd Artiffisial, arbenigyddion Deallusrwydd Artiffisial egluradwy, a datblygyddion Deallusrwydd Artiffisial ymylol. Mae'r swyddi hyn yn canolbwyntio ar wneud systemau Deallusrwydd Artiffisial yn haws eu defnyddio, yn ddealladwy, yn ddiogel ac yn effeithlon.

Mae llywodraethau'n cydnabod mai'r allwedd i harneisio Deallusrwydd Artiffisial yn effeithiol yw trwy reoleiddio moesegol, datblygiad cyfrifol, a goruchwyliaeth ddynol.

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn dechnoleg bwerus gyda buddion enfawr, ond mae hefyd yn dod â risgiau a heriau sy'n cydadweithio, fel y rhestrir isod:

Cyfleoedd	Bygythiadau
Cynyddu Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant	Anrhagweladwy a Gwallau
Gwella Dull Gwneud Penderfyniadau	Potensial ar gyfer Camddefnydd
Arbedion Cost	Costau Datblygu a Chynnal a Chadw Uchel
Ar gael 24/7	Tarfu ar y farchnad lafur a chadwyni cyflenwi
Gwell Gofal Iechyd	Pryderon Moesegol a Rhagfarn
Personoli	Risgiau Preifatrwydd a Diogelwch
Lleihau Risg mewn Swyddi Peryglus	Dibyniaeth ar Ddeallusrwydd Artiffisial a Cholli Sgiliau Dynol
Arloesi a Chreadigrwydd	Diffyg Creadigrwydd Dynol ac Emosiwn
Creu sgiliau a swyddi newydd	Dadleoli Swyddi a Diweithdra

Mae Llywodraeth Cymru a phrifysgolion Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwyddor data a Deallusrwydd Artiffisial drwy fentrau gwerth miliynau o bunnoedd i harneisio'r cyfleoedd, er enghraifft:

- Cyflymydd Cenedl Ddata Cymru (yng Nghaerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor)
- Academi Meddalwedd Genedlaethol yng Nghaerdydd
- Y Ffowndri Gyfrifiadurol yn Abertawe
- Canolfan Ymchwil Deallusrwydd Artiffisial, Roboteg, a Systemau Peiriant-Dynol (IROHMS) yng Nghaerdydd



7. Sut mae Deallusrwydd Artiffisial yn trawsnewid diwydiannau ledled Cymru

Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn ail-lunio diwydiannau yng Nghymru drwy hybu effeithlonrwydd, ysgogi arloesedd, a mynd i'r afael â heriau lleol.

Dyma sut mae Deallusrwydd Artiffisial yn trawsnewid sectorau allweddol ledled y wlad:

Gofal Iechyd

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn chwyldroi gofal iechyd trwy wella diagnosteg, personoli triniaethau, a symleiddio gweithrediadau.

- **Diagnosis Cynnar**
- **Meddyginiaeth Bersonol**
- **Effeithlonrwydd Gweithredol**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Iechyd](#)

Amaethyddiaeth

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn cefnogi arferion ffermio cynaliadwy ac yn gwella cynhyrchiant.

- **Ffermio Manwl Gywir**
- **Rheoli Da Byw**
- **Awtomatiaeth**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Amaethyddiaeth a Thir](#)

Addysg

Mae offer Deallusrwydd Artiffisial yn cyfoethogi profiadau dysgu ac yn cefnogi addysgwyr.

- **Dysgu Addasol**
- **Offer Iaith**
- **Cefnogaeth Weinyddol**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Addysg](#)

Ynni Adnewyddadwy

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn hyrwyddo ymrwymiad Cymru i ynni glân a chynaliadwyedd.

- **Optimeiddio Ynni**
- **Rheolaeth Grid**
- **Cynnal a Chadw Rhagfynegol**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Ynni](#)

Gweithgynhyrchu

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn gwella cynhyrchiant ac ansawdd mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru.

- **Awtomeiddio/Roboteg**
- **Dadansoddeg Rhagfynegol**
- **Rheoli Ansawdd**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Gweithgynhyrchu](#)

Trafnidiaeth a Seilwaith

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn moderneiddio trafndiaeth a chynllunio trefol ledled Cymru.

- **Rheoli Traffig Clyfar**
- **Awtonomaidd**
- **Monitro Seilwaith**

Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn gwella mynediad i wasanaethau cyhoeddus a'u heffeithlonrwydd.

- **Sgwrsfotiaid**
- **Canfod Twyll**
- **Dyraniad Adnoddau**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Gwasanaethau Cyhoeddus](#)

Twristiaeth

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn gwella profiadau ymwelwyr ac yn rhoi hwb i'r sector twristiaeth.

- **Argymhellion Personol**
- **Teithiau Rhithwir**
- **Cyfieithu**

Dysgwch fwy am [Swyddi mewn Twristiaeth, Lletygarwch, Chwaraeon a Hamdden](#)



Y Diwydiannau Creadigol

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn meithrin creadigrwydd ac arloesedd mewn celf, y cyfryngau ac adloniant.

- **Creu Cynnwys**
- **Cynhyrchu Ffilm**
- **Chwarae Gemau Fideo**

Dysgwch fwy am [Swyddi yn y Celfyddydau Creadigol, y Cyfryngau a Diwylliant](#)

Gwasanaethau Ariannol


Mae Deallusrwydd Artiffisial yn cryfhau sefydliadau ariannol ledled Cymru drwy wella diogelwch a gwneud penderfyniadau.

- **Asesiad Risg**
- **Atal Twyll**
- **Cymorth i Gwsmeriaid**

Nododd adroddiad Adran Addysg y DU ar [Effaith Deallusrwydd Artiffisial ar swyddi a hyfforddiant](#) yn y DU y canlynol:

- Mae galwedigaethau proffesiynol yn fwy agored i Ddeallusrwydd Artiffisial, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â thasgau mwy clerigol mewn rolau cyllid, cyfraith a rheoli busnes
- Mae'r diwydiant cyllid ac yswiriant yn fwy agored i Ddeallusrwydd Artiffisial nag unrhyw ddiwydiant arall
- Y lleiaf agored i Ddeallusrwydd Artiffisial yw'r Gwasanaethau Llety a Bwyd

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi y bydd gan rai rolau o fewn diwydiant lefelau gwahanol o amlygiad i Ddeallusrwydd Artiffisial, waeth beth fo lefel amlygiad y diwydiant penodol yn ei gyfanrwydd.



Ffynhonnell: Lightcast™ Chwefror 2025

Mae'r graff uchod yn dangos mai rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Rhagfyr 2024 yng Nghymru, Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, Addysg a Gweithgareddau Cyflogaeth oedd y 3 prif ddiwydiant yng Nghymru yn hysbysebu swyddi gyda sgiliau Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu crybwyll mewn swyddi gwag.



8. Casgliad

Mae integreiddio Deallusrwydd Artiffisial ar draws swyddi a diwydiannau yn gyrru Cymru tuag at ddyfodol mwy arloesol, effeithlon a chynaliadwy. Trwy fentrau'r llywodraeth a chydweithio rhwng diwydiant a'r byd academiaidd, mae Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y mwyaf o fanteision Deallusrwydd Artiffisial wrth fynd i'r afael â heriau moesegol a chymdeithasol.

“With the technology growing rapidly, and 42% of UK CEOs saying they have adopted AI across their companies in the last year, it’s key that current and future workers are upskilled for the AI era to ensure that technology is used responsibly and that the benefits are spread equitably. Both business and government have a key role to play in coordinating, shaping and delivering the skills agenda.”

[Pricewaterhouse Coopers, 2024](#)

9. Darllen Pellach:

[Wales is 'Uniquely Placed' at the Forefront of UK Drive to Turbocharge AI](#)

[AI 'Could Boost Productivity and Competitiveness' for Welsh SMEs](#)

[Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol - Ymchwil y Senedd, 2024](#)

[World-leading AI cyber security standard to protect digital economy and deliver Plan for Change - GOV.UK](#)

[AI PLAYBOOK \(UK.GOV\)](#)

[Artificial Intelligence - an explainer UK Parliament 2023](#)

[The Lightcast Global AI Skills Outlook | Lightcast](#)

[National AI Strategy - GOV.UK](#)

[AI Opportunities Action Plan - GOV.UK](#)

[Focus on impact of AI and the world of work | CIPD](#)

10. Gwybodaeth Gyrfa Cymru:

[Sector Digidol | Diwydiant | Gwybodaeth am Swyddi](#)

[Peirianeg | Diwydiant | Gwybodaeth am Swyddi](#)

[Gwyddoniaeth ac Ymchwil | Diwydiant | Gwybodaeth am Swyddi](#)

[Swyddi Dyfodol Cymru](#)

[Chwilio am Gwrs](#)

Rydym yn croesawu cwestiynau ac adborth ar y data a'r negeseuon allweddol sydd wedi'u cynnwys mewn Bwletin GML. Anfonwch unrhyw adborth i gwybodaeth@gyrfacymru.llyw.cymru

[Cofrestrwch](#) i dderbyn y Bwletin GML gan Gyrfa Cymru